HM Government

# Prevent

## Cydweithio i stopio radicaleiddio



# Beth yw Prevent?

Mae Prevent yn rhwyd ddiogelwch yn erbyn radicaleiddio.

Ei nod yw camu i mewn yn gynnar i stopio pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

Mae Prevent yn delio â phob ideoleg derfysgol, o Islamyddiaeth i'r Asgell-dde Eithafol.

Mae Prevent yn cael ei ddarparu ar lefel leol gan arbenigwyr sy'n deall y risgiau yn eu cymunedau. Mae'r partneriaid yn cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, addysg, gofal iechyd ac elusennau.

I bobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio, mae Prevent yn gallu darparu ymyriadau personol i'w helpu i symud oddi wrth ideolegau peryglus.

# Beth yw radicaleiddio?

Mae radicaleiddio'n gallu digwydd pan fydd rhywun yn datblygu safbwyntiau neu gredoau eithafol sy'n cefnogi grwpiau neu weithgareddau terfysgol.

Mae sawl ffordd o radicaleiddio rhywun, ac mae dylanwadau sy'n radicaleiddio yn gallu effeithio ar bobl wyneb yn wyneb, neu ar-lein.

Mae pa mor fregus ydy rhywun yn gallu dylanwadu ar ba mor agored ydyw i gael ei radicaleiddio. Mae rhywun yn gallu bod yn fregus os oes angen gofal, cymorth neu warchodaeth arbennig arno oherwydd oed, anabledd, risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

# Dyma rai arwyddion cyffredin o radicaleiddio:

- Edrych ar gynnwys eithafol ar-lein neu lwytho deunyddiau propaganda i lawr
- Cyfiawnhau defnyddio trais i ddatrys problemau cymdeithasol
- Addasu'r math o ddillad mae'n ei wisgo neu sut mae'n edrych i gyd-fynd â grŵp eithafol
- Bod yn amharod i ymwneud â phobl mae'n eu gweld fel pobl wahanol
- Defnyddio symbolau penodol sy'n gysylltiedig â sefydliadau terfysgol

Os ydych chi'n poeni bod rhywun rydych chi'n ei adnabod yn cael ei radicaleiddio, ewch i **www.actearly.uk** i gael cyngor. Bydd unrhyw beth byddwch chi'n ei rannu yn gyfrinachol bob amser.

Mae modd atgyfeirio unrhyw un sy'n cael ei radicaleiddio at Prevent ac mae unrhyw un yn cael atgyfeirio. Bydd atgyfeirio rhywun yn sicrhau ei fod yn cael yr help sydd ei angen arno i'w gadw ef a phobl eraill yn ddiogel.

# Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn cael ei atgyfeirio at Prevent?

Bydd yr heddlu'n edrych i weld a oes bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch ac oes risg go iawn o radicaleiddio.

↓

Os nad yw'r unigolyn mewn perygl o gael ei radicaleiddio, efallai bydd yn cael cynnig mathau eraill o gefnogaeth y tu allan i Prevent.

↓

Os oes risg o radicaleiddio, bydd panel o arbenigwyr lleol yn asesu'r atgyfeiriad.

↓

Os bydd y panel yn penderfynu bod y person yn addas, bydd yn cael ei wahodd i ymuno â Channel, rhaglen cefnogaeth wirfoddol.

↓

Bydd Channel yn darparu cefnogaeth fel mentora, cwnsela, addysg neu gymorth gyrfa, neu hyfforddiant diogelwch ar-lein.

Fydd atgyfeirio rhywun at Prevent ddim yn golygu ei fod mewn trwbl os nad yw wedi troseddu. Dydy Prevent ddim yn ceisio cosbi pobl a fydd neb yn cael cofnod troseddol am ymwneud â'r rhaglen. Mae Prevent yn cysylltu pobl â'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i amddiffyn eu hunain a phobl eraill rhag peryglon radicaleiddio.

I gael gwybod rhagor am radicaleiddio, ewch i **GOV.UK/Prevent**

I gael cyngor neu i atgyfeirio rhywun, ewch i **www.actearly.uk**

